



Enw:	<i>Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad Eboost:	<i>EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif Ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma safbwyntiau:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n

¹ Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.



ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treilau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Cynigion i ddiwygio'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael canllawiau ar wahân ochr yn ochr â'r Cod ar gyfer dioddefwyr ac ymarferwyr? Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Mae Cymorth i Ferched yn cytuno y dylai canllawiau ar gyfer goroeswyr trais yn erbyn menywod esbonio'n glir yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol a'r gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo. Mae goroeswyr wedi hysbysu Cymorth i Ferched Cymru y byddent yn dymuno gweld gwybodaeth gliriach am beth i'w ddisgwyl gan y broses, am benderfyniadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron, am fesurau arbennig ac am gymorth eiriolaeth. Mae'r berthynas gyda'r eiriolwr cyn y llys hefyd wedi'i chodi fel mater pwysig i oroeswyr, er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y broses. Am y rheswm hwn, cytunwn y byddai dau God yn fwy effeithiol, gydag un fersiwn mwy manwl ar gael i ymarferwyr. Cytunwn hefyd fod y Cod ar gyfer plant a phobl ifanc yn bwysig i'w grymuso i wybod eu hawliau a dylai hwn eto fod yn gyson â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig o ystyried ei ymrwymadau i amddiffyn plant rhag trais a niwed.² Mae grwpiau ffocws gyda phlant Cymorth i Ferched Cymru wedi dweud wrthym nad oedd gan blant ymdeimlad o frys wrth geisio cymorth a bod gan rai ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn oedd yn digwydd iddynt wrth ymgysylltu ag asiantaethau. Felly, byddai canllaw clir sy'n esbonio'r broses ar lefel sy'n addas i'r

² <https://www.savethechildren.org.uk/what-we-do/childrens-rights/united-nations-convention-of-the-rights-of-the-child>



oedran yn cael ei groesawu. Dylid datblygu dogfennau cyfarwyddyd hefyd mewn partneriaeth â sector arbenigol trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cydnabyddiaeth o'r ffaith bod gwasanaethau ac agweddau eraill ar y sector cyhoeddus, heblaw am y system cyfiawnder troseddol, wedi'u datganoli yng Nghymru ac felly y gall arferion fod yn wahanol i Loegr.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid y strwythur i nifer llai o hawliau trosfwaol? Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Mae'n bwysig bod y Cod yn hawdd ei ddefnyddio oherwydd os ystyrir ei fod yn rhy hir yna fe fydd yn peidio â bod yn hawdd ei ddefnyddio. Croesawn yr ymrwymiad yn yr ymgynghoriad hwn i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cydymffurfio â Deddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004, a'u bod yn glir os deir â'r hawliau amrywiol ynghyd, na ddylai hawliau goroeswyr trais yn erbyn menywod gael eu colli, er enghraifft nodi a chyfeirio'n benodol at hawliau goroeswyr trais yn erbyn menywod a merched. Mae'n rhaid i unrhyw symleiddio a wneir sicrhau na cholli unrhyw eglurder ar hawliau a diffyg gwybodaeth i ymarferwyr neu oroeswyr ynghylch sut i gael yr hawliau. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, ein cyngor yw i gynnwys gwasanaethau arbenigol a goroeswyr yn y broses o ddrafftio unrhyw newidiadau.

Ym mha ffordd arall y gallem wella hygyrchedd y Cod?

Mae pobl anabl yn dioddef cyfraddau uwch anghymesur o gam-drin o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl, felly byddem hefyd yn gofyn am i'r Cod fod ar gael ar ffurf hawdd ei darllen a ffurfiau hygyrch eraill. Cyhoeddodd Cymorth i Ferched Cymru adroddiad ar y cyd gydag Anabledd Cymru a dynnodd sylw at y rhwystaru sy'n wynebu goroeswyr anabl wrth geisio cael cymorth. Un o'n hargymhellion oedd y dylai pob gwasanaeth ddarparu gwybodaeth hygyrch³.

Yn ogystal â hyn, byddem yn dadlau dros gael manylion am sut y gall goroeswyr gael mynediad at gymorth arbenigol, gan gynnwys er enghraifft llinell gymorth rad ac am ddim Cymru, Byw Heb Ofn⁴.

Yn olaf, byddai cyhoeddusrwydd am y Cod yn ddefnyddiol mewn lleoliadau eraill y mae goroeswyr yn debygol o droi atynt cyn mynd at yr heddlu, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy gwybodus am y broses, er enghraifft mewn lleoliadau gofal iechyd, swyddfeydd tai ac ati.

Mae'n hanfodol cydweithio â sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn ymgysylltu â goroeswyr ag anableddau, o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu bobl â nodweddion gwarchoddedig eraill, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn hygyrch ac yn ystyrion i bob goroeswr.

Ydych chi'n cytuno bod angen penodol i gryfhau cyfathrebu o'r adeg lle ceir cyhuddiad? Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

³ Cymorth i Ferched Cymru ac Anabledd Cymru, Cefnogi pobl anabl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru; <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/WWA-and-Disability-Wales-2019-report-Final-ENG.pdf>, tudalen 24

⁴ <https://gov.wales/live-fear-f>



Ydyn, o ran trais yn erbyn menywod, gwyddom y gall goroeswyr fod yn gyndyn o fynd ag achos trwy'r system cyfiawnder troseddol am amrywiol resymau, gan gynnwys pwysau gan y drwgweithredwr ac aelodau eraill o'r teulu i ollwng yr achos, yn ogystal ag amharoddrwydd i ddefnyddio'r system cyfiawnder troseddol o gwbl⁵, yn enwedig ar gyfer rhai carfannau o fenywod, megis menywod hŷn neu'r rheini sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol eu hunain. Mae hefyd yn bwysig bod goroeswyr yn cael diweddariadau rheolaidd yn ymwneud â statws y drwgweithredwr, er enghraifft os yw amodau mechnïaeth wedi newid neu lle mae drwgweithredwr wedi cael ei fechnïo/mechnïo. Gall y diffyg gwybodaeth neu'r cam-gyfathrebu hwn olygu nad yw goroeswyr yn dymuno parhau ag achos, mae'n rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod goroeswyr yn cael eu cefnogi ar bob cam o'r broses. Fel y nodwyd uchod, mae goroeswyr wedi hysbysu Cymorth i Ferched Cymru eu bod am weld gwybodaeth gliriach am beth i'w ddisgwyl gan y broses, am benderfyniadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron, am fesurau arbennig ac am gymorth eiriolaeth, dylid darparu hyn o'r adeg y gwneir cyhuddiad ymlaen. Gall cyfathrebu gwael fod yn ofid mawr i oroeswyr ac yn rhwystr sylweddol iddynt wrth gael mynediad i'r cyfiawnder a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddynt.

Rydym yn cefnogi galwadau gan Women's Aid Federation England, i gefnogi argymhelliad y Comisiynydd Dioddefwyr, y dylai pob dioddefwr sy'n datgelu cam-drin domestig gael person cyswllt o fewn yr heddlu i gysylltu ag ef/hi ynghylch ei (h)achos er mwyn sicrhau cysondeb a chefnogaeth. Mae'n bwysig bod dioddefwyr cam-drin domestig yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a chywir am statws eu hachos, yn arbennig gan fod yn rhaid iddynt gynllunio ar gyfer eu diogelwch eu hunain.

A ddylid cofnodi dewisiadau'r dioddefwr o ran amllder a'r dull cyswllt a ffeirir ar ei daith/thaith drwy'r system cyfiawnder troseddol, a hynny fel rhan o'r cyfathrebu cychwynnol? Ac os felly, a ddylai'r dewisiadau hyn ffurfio rhan o'r broses atgyfeirio rhwng asiantaethau? Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Dylent, rydym yn dadlau dros ymagwedd gan wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ailadroddwn y pwyntiau uchod ein bod yn pryderu ynghylch goroeswyr yn teimlo na allant ddilyn eu hachos os nad oes ganddynt y lefel o gyfathrebu sydd ei hangen arnynt i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses. Mae gwneud erlyniad yn gam brawychus i unrhyw un, ond lle bo'r drwgweithredwr yn bartner neu'n aelod o'r teulu gall hyn waethygu ymhellach, yn arbennig os yw'r goroeswr wedi dioddef rheolaeth gymhellol. Felly, mae lefel y wybodaeth a gyfathrebir a pha mor aml y gwneir hynny yn bwysig i gefnogi goroeswyr i barhau'n rhan o'r broses, gan sicrhau y gall goroeswyr newid eu dewis trwy gydol y broses pe bai angen. Mae'r dull cyfathrebu hefyd yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cam-drin domestig a thrais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, oherwydd efallai na fydd rhai dulliau cyfathrebu yn ffordd ddiogel o gysylltu â goroeswr – dylid cymryd camau felly i sicrhau bod pob cyfathrebu'n digwydd yn ddiogel. Mae risg yn aml yn ddynamig mewn achosion o gam-drin domestig a thrais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, mae'n bwysig bod y dull cyswllt yn cael ei adolygu'n rheolaidd gyda'r goroeswr er mwyn sicrhau bod y cyswllt hwnnw'n parhau'n ddiogel ac yn gefnogol. Mae'n werth nodi hefyd y gall cyfeiriadau newid yn gyflym os oes angen i oroeswr gael mynediad i

⁵ Improving the police response to domestic abuse, <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/2014/04/improving-the-police-response-to-domestic-abuse.pdf> tudalen 31



loches neu gymorth tai arall ac mae angen i'r system allu ymateb i hyn. Y ffordd orau o hwyluso hyn yw drwy weithio gyda gwasanaethau cymorth arbenigol sy'n medru darparu cymorth i'r goroeswr barhau i fod yn rhan o'r cyfathrebu a darparu'r eiriolaeth y gall fod ei hangen arni/arno.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi mwy o ddisgresiwn i asiantaethau ynglŷn â phryd y cynnig Datganiad Personol y Dioddefwr? Rhwch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Rydym yn ailadrodd y pwynt uchod am bwysigrwydd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chydabyddiaeth o drawma trais yn erbyn menywod a merched. Er enghraifft, gallai effaith rheolaeth gymhellol ar unigolyn olygu ei fod yn cymryd amser i oroeswr deimlo y gall ddarparu datganiad. Byddem hefyd yn pwysleisio ei fod yn bwysig nad yw rhagdybiaethau'n cael eu gwneud ynghylch a ddylai rhywun wneud datganiad ai peidio ac ailadroddwn y dylid mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac y dylai goroeswr deimlo ei bod wedi'i grymuso i wneud pernderfyniad sy'n iawn iddi hi. Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn teimlo bod angen ystyried materion eraill yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched, megis ofn o'r drwgweithredwr/drwgweithredwyr a allai atal rhywun rhag eisiau gwneud datganiad ar adeg y cyswllt cyntaf yn ogystal â'r peryglon a'r stigma sy'n perthyn i drais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, neu anffurfio organau cenedlu menywod a all fod yn rhwystr ychwanegol i ddarparu datganiad. Unwaith eto, rydym yn ailadrodd pwysigrwydd eiriolaeth arbenigol i gynorthwyo gyda'r broses hon pe bai goroeswr am wneud datganiad. Dylai'r cyfle i ddefnyddio mesurau arbennig, megis cyswllt sgrin neu fideo, hefyd gael eu cynnig i bob goroeswr wrth roi Datganiad Personol Dioddefwr.

Ydych chi'n cytuno y dylid darparu copi o'r Datganiad Personol Dioddefwr i'r dioddefwr? Rhwch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Ydyn, ei (d)datganiad ef/hi ydyw a dylai gael y cyfle i'w adolygu, yn enwedig os yw wedi ei wneud yn ystod cyfnod arbennig o drawmatig. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion o drais yn erbyn menywod a merched gan fod 'lle i weithredu' a dewisiadau'r goroeswr wedi'u cwtogi gan y drwgweithredwr ac mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei barhau gan yr asiantaethau sy'n rhan o'r achos.

Ydych chi'n cytuno y dylai'r hawl i gael mynediad at gymorth ymarferol ac emosiynol ar gyfer dioddefwyr gael ei wneud yn gliriach yn y Cod diwygiedig, ar gyfer y dioddefwyr hynny:

- a. nad ydynt yn hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau?
- b. a ddewisodd dynnu yn ôl wedi hysbysu'r heddlu am ddigwyddiad?
- c. ar ddiwedd eu hachos?

Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Mae Cymorth i Ferched yn glir bod yn rhaid darparu cymorth p'un ai bod y dioddefwr trais yn erbyn menywod a merched yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol ai peidio. Mae angen i oroeswyr pob math o drais yn erbyn menywod a merched gael mynediad at gymorth arbenigol er mwyn sicrhau eu



bod yn teimlo y gallant siarad am eu profiad mewn amgylchedd ddiogel ac anfarnol. Mae gwasanaethau arbenigol pwrpasol yn darparu cymorth trwy gydol y broses gyfreithiol, os bydd unigolion yn dewis gwneud datganiad, yn ogystal ag ystod o gefnogaeth tai, cymunedol a therapiwtig p' un a yw rhywun yn adrodd ai peidio. Yn ôl Confensiwn Istanbul dylai pob goroeswr gael mynediad at gymorth arbenigol digonol p' un ai ei fod/bod wedi adrodd neu'n parhau â'r achos ai peidio.

Mae ystadegau diweddar wedi amlygu, hyd yn oed gyda'r cynnydd mewn adrodd, nad yw nifer o achosion yn symud ymlaen at gyhuddiad ac erlyniad. Mae ystadegau'r Grŵp Monitro Treisio ar gyfer 2017/18 yn dangos mai 4.2% yw'r gyfradd cyhuddo ar gyfer treisio yn Lloegr a Chymru. Mae goroeswyr wedi siarad â Cymorth i Ferched Cymru am y profiad o ail-brofi trawma wrth adrodd i'r heddlu am achos o dreisio ac ymosodiad rhywiol ac wrth fynd drwy'r ymchwiliad dilynol a'r prosesau llys. Mae'n hanfodol bod y Cod yn arf sy'n gallu mynd i'r afael â hyn, gan sicrhau bod goroeswyr yn cael gwybod am eu hawliau i gael cymorth ar unrhyw adeg yn ystod y broses, os ydynt yn tynnu achos yn ôl am unrhyw reswm a beth bynnag fo canlyniad eu hachos.

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i gategoriâu cymhwystra ar gyfer mynediad at gymorth arbenigol? Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Pryderwn am gyfuno categorïau gan y gallai fod perygl i rai o'r categorïau a enwir gael eu colli. Yn arbennig gollir term 'dioddefwyr y drosedd fwyaf difrifol a dioddefwyr a dargedir yn aml' gan mai dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched, yn arbennig cam-drin domestig, yw rhai o'r rheini a dargedir fwyaf aml ac sy'n profi'r cyfraddau uchaf o erledigaeth fynych. Rydym yn glir, os bydd yna gyfuno, fod yn rhaid i'r gwahanol fathau o drais yn erbyn menywod a merched barhau i gael eu rhestru fel rhai sy'n perthyn i gategori'r 'angen mwyaf'. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod pob goroeswr trais yn erbyn menywod a merched yn cael cynnig cymorth arbenigol priodol.

Pryderwn nad yw trais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, priodas dan orfod a rheolaeth gymhellol wedi'u rhestru fel rhai sy'n gymwys i dderbyn cymorth arbenigol. Gwyddom, gan oroeswyr, fod angen ymyrraeth arbenigol ar gyfer y troseddau hyn, naill ai gan gynghorwyr annibynnol hynod fedrus ar drais domestig neu gan wasanaethau arbenigol i fenywod gan ac ar gyfer pobl dduon, Asiadd a lleiafrifoedd ethnig. Gwyddom hefyd fod y troseddau hyn yn peri risg arbennig i'r goroeswr. Mae goroeswyr trais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, hefyd yn fwy tebygol o fod â drwgweithredwyr lluosog sy'n gofyn am ymateb arbenigol.

Gall eiriolaeth arbenigol gael effaith sylweddol ar ganlyniadau cyfiawnder a gall leihau'r nifer o oroeswyr sy'n 'ymddieithrio' o'r system. Mae hyn yn wir am bob menyw a chaiff effaith arbennig ar bobl dduon, Asiadd a lleiafrifoedd ethnig a menywod sydd ar yr ymylon. Dylai mynediad i eiriolwyr arbenigol megis cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a chynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol fod yn gynnig gwarantiedig i bob goroeswr, a dylai fod wedi'i gyllido'n ddigonol fel y gellir meithrin perthynas ymddiriedus gyda'r goroeswr cyn y dyddiadau allweddol.

Mae'r defnydd o fesurau arbenigol hefyd yn bwysig yma, er enghraifft, dylai tystiolaeth cyswllt fideo, mewn manau i fenywod yn unig, fod ar gael i oroeswyr fel nad oes raid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth. Tra ein bod ni, ynghyd ag aelodau eraill o'r sector trais yn erbyn menywod a merched, yn



croesawu cynigion y llywodraeth yn y Bil Cam-drin Domestig i sicrhau bod mesurau arbennig ar gael mewn llysoedd troseddol, rydym yn glir bod yn rhaid iddynt fod ar gael hefyd mewn llysoedd teulu a sifil.

Pa newidiadau dylid eu gwneud i'r broses asesu anghenion bresennol?

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell proses asesu anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i lywio gan drawma. Mae'n rhaid i broses asesu anghenion gynyddu'r lle sydd gan oroeswyr i weithredu, gan sicrhau bod y cymorth a ddarperir ar draws pob asiantaeth o fewn y broses cyfiawnder troseddol yn cynnig ymateb sydd wedi'i arwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar rymuso'r goroeswr. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy sicrhau bod goroeswyr a'u plant yn cael cymorth gan wasanaethau arbenigol a bod yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau hyn. Mae'n hanfodol diwallu anghenion goroeswyr yn ddigonol drwy fynd i'r afael â'r ffyrdd y mae trais yn erbyn menywod a merched ac anfantais lusosg yn gorgyffwrdd; mae'n rhaid i'r broses asesu anghenion ystyried y materion strwythurol sy'n effeithio ar brofiad goroeswr. Mewn llawer o achosion mae anfafeision yn cael eu dwysáu yn aml gan dlodi ac wedi'u cysylltu'n annatod ag anghydraddoldebau cymdeithasol a gysylltir â rhywiaeth neu drais ar sail rhywedd. Mae hefyd yn bwysig archwilio sut y mae'r profiadau hyn yn gorgyffwrdd ag ethnigrwydd, oed, dosbarth, rhywioldeb, normau rhywedd ac anabled, yn ogystal â hunaniaeth a phrofiadau bywyd goroeswyr mewn perthynas â ph'un a ydynt, er enghraifft, yn cael mynediad i systemau budd-daliadau/lles, gwsanaethau cyhoeddus neu arbenigol neu'r systemau cyfiawnder troseddol.

Mae'n rhaid i'r rheini sy'n gwneud asesiadau anghenion fod wedi'u hyfforddi i ddarparu ymateb i fenywod sydd wedi'i lywio gan drawma, sydd wedi'i arwain gan anghenion ac sy'n seiliedig ar gryfderau, yn arbennig gyda menywod sy'n wynebu rhwystrau lluosog wrth gael gafael ar gymorth. Lle bo'n briodol, dylai asesiadau anghenion gael eu cynnal gan neu gyda darparwyr gwasanaethau arbenigol, sydd ag arbenigedd mewn darparu cymorth i oroeswyr trais yn erbyn menywod a phlant.

Croesawn y gydnabyddiaeth i'r ffaith y gall ail-ddweud eu stori, pan nad yw gwybodaeth wedi'i throsglwyddo'n gywir rhwng asiantaethau, achosi ail drawma i oroeswyr. Fel y nodwyd, mae goroeswyr wedi dweud wrthym sut y gall adrodd am dreisio neu ymosodiad rhywiol, er enghraifft, achosi profiad o ail drawma ac yna fynd drwy'r archwiliad dilynol a phrosesau'r llys. Mae'n rhaid felly i'r gwaith o rannu gwybodaeth gael ei gwneud mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar rymuso'r goroeswr. Rydym yn glir bod yn rhaid gweithredu ffyrdd priodol o rannu gwybodaeth gyda chaniatâd y goroeswr ar draws y system cyfiawnder troseddol yn ogystal â chyda llysoedd teulu er mwyn sicrhau proses gydgysylltiedig o gefnogi goroeswyr. Mae hyn yn atal y posibilrwydd o gael ail drawma ond mae angen cydnabod fodd bynnag y gall yr angen a'r risg newid dros gyfnod y broses cyfiawnder troseddol, felly mae'n rhaid cael adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion goroeswyr a'u plant yn cael eu diwallu drwy gydol y broses.

Mae angen i'r system cyfiawnder troseddol lynu at ymagwedd sydd wedi'i llywio gan drawma, sy'n cydnabod y gall trawma effeithio ar allu goroeswr i ymgysylltu â chymorth ac i barhau â'r ymgysylltu. Dylai'r cyfrifoldeb fod ar lysoedd ac asiantaethau cymorth i gymryd camau i hwyluso ymgysylltu trwy



gydnabod y profiad o drawma a'i effaith ar les emosiynol, gwybyddol a seicolegol rhywun. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae'n rhaid darparu canllawiau a hyfforddiant i bob swyddog llys perthnasol a hynny mewn partneriaeth ag asiantaethau arbenigol.

Ydych chi'n cytuno y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddau weithio gyda'u partneriaid cyfiawnder troseddol lleol i addasu'r canllawiau i ddiodefwyr er mwyn esbonio'r ddarpariaeth leol ar gyfer diodefwyr? Rhowch resymau dros eich ymateb os gwelwch yn dda.

Yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched, mae goroeswyr yn aml yn symud ar draws ffiniau i gael mynediad at ddiogelwch a'r rhwydwaith cenedlaethol o lochesau. Felly mae'n rhaid cael trosolwg cenedlaethol o ddarpariaeth ddigonol nid yn unig ar sail anghenion lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fenywod â nodweddion gwarchoddedig megis pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu fenywod anabl nad yw eu hangenion cymorth arbenigol wedi eu cydnabod o bosibl mewn asesiadau anghenion lleol.

Os yw Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i addasu eu canllawiau i ddiwallu anghenion lleol, mae'n rhaid gwneud hyn mewn partneriaeth â gwasanaethau trais yn erbyn menywod arbenigol lleol sydd yn y sefyllfa orau i adnabod anghenion goroeswyr yn eu cymuned. Mae'n rhaid i ymgysylltu ddigwydd yn ystyrlon gydag amrywiaeth o fenywod, yn enwedig y rheini sy'n cael eu heithrio yn aml oherwydd gwahaniaethu lluosog, er mwyn llywio gweithredu'r canllawiau yn lleol.

Galwn am fwy o eglurder o berspectif datganoledig ar gynyddu pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr a chryfhau cydymffurfiaeth asiantaethau a sut y bydd hyn yn gweithio yng Nghymru a'r sector statudol a chyhoeddus datganoledig. Galwn hefyd am eglurder ar sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu model ar gyfer darparu cyllid cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n bwysig bod cyllid datganoledig ac arian nad yw wedi'i ddatganoli yn cael ei roi i gynnal y ddarpariaeth ledled Cymru.

Yn olaf, croesawn ragor o aglurder ar sut y bydd y Comisiynydd Dioddefwyr newydd yn gweithio gyda'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a Chynghorwyr Cenedlaethol Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn dal awdurdodau lleol a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau i gyfri o ran sicrhau ymatebion digonol i oroeswyr a chynladwyedd yn y ddarpariaeth. Yn ein hargymhellion i Lywodraeth y DU ar y Bil Cam-drin Domestig, rydym ninnau a'n partneriaid yn y sector trais yn erbyn menywod, wedi galw'n gyson ar i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig feddu ar y pŵer i orfodi fframwaith o atebolrwydd ar draws y sector cyhoeddus a theimlwn fod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol.